**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2016**

**CWYNION A GWERTHFAWROGIADAU**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am nifer y cwynion a'r gwerthfawrogiadau a ddaeth gan y cyhoedd yn cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

## Gwybodaeth

## Cofnodi Cwynion yn Ffurfiol

2 Mae cwynion adroddadwy'n cael eu cofnodi fel materion y tynnir sylw'r Gwasanaeth atynt pan fo aelodau'r staff yn cyflawni neu'n cymryd rhan ym musnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

3 Yn ogystal â'r niferoedd a roddir yn nhabl 1 isod, mae'r Gwasanaeth wedi derbyn 6 o gwynion nad oedd yn ymwneud ag aelodau o staff a/na busnes cyfreithlon GTAGC.

4 Nid yw cyfanswm y cwynion yn cynnwys rhai gan aelodau pryderus o'r cyhoedd am faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth diogelwch tân ar safleoedd lle mai'r GTAGC fyddai'r awdurdod gorfodi neu'r awdurdod ymgynghori ar gyfer deddfwriaeth a rheoliadau diogelwch sy'n berthnasol i'r safleoedd hynny.

**Cwynion a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016**

5 Dyma'r cwynion adroddadwy a ddaeth i law, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd:

| Tabl 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau cwynion** | **Cwynion adroddadwy a ddaeth i law** | | **Gwahan-iaeth** |
| | 2014/2015 | 2015/2016 | |
| Y Gymraeg | 1 | 0 | ↓ -1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 3 | 3 | ←→ 0 |
| Gyrru | 4 | 8 | ↑+4 |
| Gweithgareddau'r Ochr Weithredol | 4 | 3 | ↓ -1 |
| Ymddygiad | 5 | 6 | ↑+1 |
| Darpariaeth Diogelwch i Fusnesau/Gymunedau | 3 | 5 | ↑+2 |
| **Cyfanswm** | **20** | **25** | ↑ +5 |
| | | | |
| **Cynnydd yn y canran ers 14/15** | | | **↑ 25 %** |

| **Cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol** | |
|---|---|
| **22.6** | **↑ +11%** |

| Tabl 2 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau cwynion** | **Cwynion a brofwyd** | | **Gwahan-iaeth** |
| | 2014/2015 | 2015/2016 | |
| Y Gymraeg | 1 | 0 | ↓ -1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 1 | 0 | ↓ -1 |
| Gyrru | 2 | 2 | ←→ |
| Gweithgareddau'r Ochr Weithredol | 3 | 1 | ↓ -2 |
| Ymddygiad | 2 | 2 | ←→ |
| Darpariaeth Diogelwch i Fusnesau/Gymunedau | 1 | 2 | ↑+1 |
| **Cyfanswm** | **10** | **7** | ↓ -3 |
| Canran y cwynion a brofwyd | **50%** | **28%** | **↓ -22%** |

| **Cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol** | |
|---|---|
| **38%** | **↓ -16%** |

**Gwerthfawrogiadau a ddaeth i lawr rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016**

6 Mae'n werth nodi bod 92 o negeseuon o werthfawrogiad drwy lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost, y cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol wedi dod i law yn ffurfiol i fynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd â GTAGC a'i staff.

7 Roedd y negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i law yn ymdrin ag amrywiaeth eang o'n gweithgareddau, ond maent yn dod yn fras o fewn y categorïau yn nhabl 3.

**Tabl 3**

| **Categorïau gwerthfawrogiadau** | **Gwerthfawrogiadau a ddaeth i lawr** | | **Gwahan-iaeth** |
|---|---|---|---|
| | 2014/2015 | 2015/2016 | |
| Mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol, gan gynnwys ymweliadau â GTAGC a chanddo. | 19 | 25 | ↑ +6 |
| Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a larymau mwg/ ymyriadau eraill a roddwyd | 14 | 12 | ↓ -2 |
| Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y Ffenics a Lleihau Llosgi Bwriadol | 5 | 11 | ↑ +6 |
| Cymorth elusennol gan gynnwys rhoddion nosweithiau tân gwyllt | 4 | 9 | ↑ +5 |
| Digwyddiadau ac ymarferion yr ochr weithredol | 15 | 29 | ↑ +14 |
| Ymddygiad | 4 | 6 | ↑ +2 |
| Cyfanswm | **61** | **92** | **↑ +31** |
| **Cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol** | | | |
| **74** | | | **↑ +24.5%** |

**Argymhelliad**

8 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.